**Cynllun Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2025-26**

## Amcan Llesiant Un -Lle llewyrchus gyda chymunedau ffyniannus

| Nodau | Dangosyddion perfformiad | Ymrwymiadau / prosiectau |
|---|---|---|
| 1.1 Symud tuag at garbon sero net, a gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni | DCO23.05 Lleihau allyriadau (ar draws ein hadeiladau, fflyd ac offer, goleuadau stryd, teithio busnes, cymudo, gweithio gartref, gwastraff, nwyddau a gwasanaethau a gaffaelir) (COMM)<br>DCO20.01 Defnydd Nwy Blynyddol ar draws yr Awdurdod (kWh) (COMM)<br>DCO20.02 Defnydd Trydan Blynyddol ar draws yr Awdurdod (kWh) (COMM)<br>CED57 - Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr awyr (microgramau fesul $m^3$) (CEX SRS) | 1.1.1 Buddsoddi mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni i ystâd ac asedau'r Cyngor. (COMM)<br>1.1.2 Rhoi ein Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer ar waith a monitro ei effeithiolrwydd wrth wella ansawdd yr aer ar hyd Stryd y Parc (CEX SRS) |
| 1.2 Gwarchod tirweddau a mannau agored | DCO23.06 Nifer y traethau baner las (COMM)<br>DCO23.07 Nifer y parciau baner werdd a'r mannau gwyrdd (COMM) | 1.2.1 Cyflawni prosiectau fel gwella coetiroedd, datblygu a gwarchod ein hamgylchedd naturiol mewn partneriaeth â'n cymunedau a rhanddeiliaid allweddol fel rhan o'n Cynllun Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr (COMM) |
| 1.3 Hyrwyddo'r amodau ar gyfer twf economaidd a ffyniant | DCO23.03 Nifer y busnesau sy'n derbyn cymorth drwy Gyllid Ffyniant a Rennir (COMM)<br>DCO23.04 Nifer y busnesau newydd a gafodd gymorth (COMM) | 1.3.1 Datblygu cynigion ariannu i wella'r economi ac ysgogi cyfleoedd am swyddi newydd (COMM)<br>1.3.2 Buddsoddi mewn busnesau newydd yn y Fwrdeistref Sirol drwy ddarparu cymorth proffesiynol a chymorth grant, gan gefnogi sectorau twf allweddol fel ymchwil a datblygu, cyllid a'r economi werdd (COMM)<br>1.3.3 Buddsoddi £7.75m yn ychwanegol o Gyllid Ffyniant a Rennir mewn prosiectau yn y Fwrdeistref Sirol erbyn 2026, gyda phartneriaid yn y trydydd sector, gan gynnwys mewn pobl a sgiliau, cefnogi busnesau lleol, a datblygu cymunedau a lle (COMM)<br>1.3.4 Gwella dewisiadau teithio cynaliadwy a llesol, er mwyn cynyddu cysylltedd a dewisiadau teithio gwyrddach yn unol â'n prosiectau trafnidiaeth strategol (COMM) |

| | | |
|---|---|---|
| 1.4 Adfywio canol ein trefi a'n Cymoedd | DCO23.01 Nifer yr eiddo masnachol a gafodd gymorth drwy'r cynllun grant gwella (COMM) | 1.4.1 Cyflwyno rhaglen fuddsoddi Trawsnewid Trefi ar draws canol ein trefi mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru dros y ddwy flynedd nesaf i wella cynaliadwyedd economaidd canol ein trefi (COMM)<br>1.4.2 Parhau i ddarparu grant gwella eiddo masnachol ar gyfer holl strydoedd mawr y cymoedd, er mwyn defnyddio eiddo gwag o'r newydd a gwella canolfannau lleol. (COMM)<br>1.4.3 Ailddatblygu safle Heol Ewenni, gan gynnwys tai newydd a fforddiadwy, hwb menter, man agored a seilwaith gwyrdd, mewn partneriaeth â'r tirfeddiannwr cyfagos. (COMM) |
| 1.5 Lleihau, ailddefnyddio neu ailgylchu cymaint o wastraff ag sy'n bosibl | DCO20.05 Canran y gwastraff glanhau strydoedd a baratowyd i'w ailgylchu (COMM)<br>PAM/030 Canran y gwastraff a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd, neu a gompostiwyd (COMM)<br>PAM/010 Canran y strydoedd sy'n lân (COMM) | 1.5.1 Dod â'n Gwasanaeth Gwastraff yn fewnol (COMM) |
| 1.6 Darparu cyfleoedd am ddiwylliant, hamdden a chwarae | SSWB67 Cymryd rhan yn y fenter nofio am ddim genedlaethol i blant 16 oed ac iau (SSWB)<br>DCO23.10 Nifer y mannau chwarae sydd wedi'u hadnewyddu (COMM)<br>Nifer y defnyddwyr gweithredol ar draws y grwpiau poblogaeth targed drwy ddarpariaeth aelodaeth hamdden iechyd a lles. (SSWB) | 1.6.1 Ailddatblygu Pafiliwn y Grand Porthcawl i gynyddu'r defnydd o'r cyfleusterau newydd ac ymestyn cyfleusterau cymdeithasol a hamdden, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. (COMM)<br>1.6.2 Parhau â rhaglen adnewyddu mannau chwarae plant a sicrhau bod offer chwarae cynhwysol yn cael eu darparu er mwyn caniatáu cyfleoedd i bawb. (COMM)<br>1.6.3 Ehangu'r Rhaglen Bwyd a Hwyl ar gyfer haf 2025 (EEYYP)<br>1.6.4 Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y Cyngor cyfan, a rhwydweithiau i gefnogi cyflwyno'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i Lywodraeth Cymru. (SSWB)<br>1.6.5 Datblygu cynnig llesiant gweithredol ar gyfer grwpiau targed (SSWB)<br>1.6.6 Datblygu'r Strategaeth Partneriaeth Byw'n Iach (SSWB)<br>1.6.7 Datblygu'r Strategaeth ar gyfer Llyfrgelloedd, Diwylliant a'r Hwb Cymunedol (SSWB)<br>1.6.8 Cynnal perfformiad yn erbyn safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru (SSWB) |

## Amcan Llesiant Dau - Creu gwasanaethau cyhoeddus modern a di-dor

| Nodau | Dangosyddion perfformiad | Ymrwymiadau / prosiectau |
|---|---|---|
| 2.1 Gwella sut rydym yn ymgysylltu â phobl, yn gwrando ar safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt. | CED59 Lefel ymgysylltu (Cymraeg / Saesneg)<br>a) ar draws ymgyngoriadau<br>b) mewn cyfathrebiadau corfforaethol â thrigolion (CEX)<br>CED65 Canran y cwynion a gaewyd o fewn y terfynau amser (CEX) | 2.1.1 Gwella sut rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â thrigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i'n helpu i ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid a bod yn fwy ymatebol. (CEX)<br>2.1.2 Gwella'r ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio barn trigolion (CEX)<br>2.1.3 Gwella'r ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio barn staff (CEX)<br>2.1.4 Gwella'r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion a chanmoliaeth corfforaethol ac yn dysgu yn eu sgil (CEX)<br>2.1.5 Rhoi cynllun gweithredu'r cynllun cydraddoldeb strategol ar waith (CEX) |
| 2.2 Cynnig mwy o wybodaeth a gwasanaethau ar-lein, ac mewn ardaloedd lleol. | CED5 Canran y datrysiadau ar yr alwad gyntaf (drwy'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid) (CEX)<br>CED51 Nifer y trafodiadau ar-lein drwy ddefnyddio'r platfform digidol (CEX) | 2.2.1 Parhau i adolygu'r drws blaen corfforaethol i symleiddio, safoni a gwella pwyntiau mynediad i'r Cyngor, gan wella'r datrysiadau yn y pwynt cyswllt cyntaf. (CEX) |
| 2.3 Moderneiddio a datblygu'n gyngor mwy effeithlon | CORPB5 Canran y staff sydd wedi cwblhau Adolygiad/Arfarniad Personol (ac eithrio staff ysgol) (CEX/Pawb)<br>PAM/001 Nifer y dyddiau gwaith/sifftiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALI) (CEX/Pawb)<br>DCO16.8 Nifer yr asedau sy'n eiddo i'r cyngor a drosglwyddwyd i'r gymuned i'w rhedeg (CATs) (COMM) | 2.3.1 Cymeradwyo a gweithredu'r strategaeth ddigidol newydd (CEX)<br>2.3.2 Parhau i resymoli'r ystâd gorfforaethol (COMM)<br>2.3.3 Buddsoddi mewn Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a chefnogi clybiau a Grwpiau Cymunedol drwy roi grantiau offer er mwyn iddynt wella a diogelu'r cyfleusterau. (COMM) |
| 2.4 Gwella gwaith partneriaeth â phartneriaid, y trydydd sector a Chynghorau Tref a Chymuned. | CED62 Canran defnyddwyr gwasanaeth Assia sy'n nodi eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn eu gwerthusiad ymadael (CEX)<br>CED63 Canran y dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel / hysbysiadau diogelu'r cyhoedd a dderbyniwyd gan y gwasanaeth y cysylltwyd â nhw o fewn 48 awr. (CEX)<br>CED64 Canran y dioddefwyr cam-drin domestig risg ganolig / hysbysiadau diogelu'r cyhoedd a dderbyniwyd gan y gwasanaeth y cysylltwyd â nhw o fewn 72 awr. (CEX) | 2.4.1 Datblygu cytundeb rhanbarthol newydd rhwng byrddau iechyd a chynghorau ar gyfer gweithio gyda phobl hŷn fregus (SSWB)<br>2.4.2 Cwblhau'r adolygiad o drefniadau cynghorau tref a chymuned (CEX)<br>2.4.3 Gweithio'n gydgynhyrchiol â'n cymunedau i ddatblygu eu datrysiadau eu hunain a datblygu'n fwy cydnerth. (SSWB) |

| | | |
|---|---|---|
| | Nifer yr atgyfeiriadau gweithredol a gefnogir gan Gydlynwyr Cymunedol Lleol (SSWB)<br>Nifer y plant a'r oedolion ifanc a gefnogir yn ystod gwyliau'r ysgol (SSWB) | |

## Amcan Llesiant tri - Galluogi pobl i gyflawni eu potensial

| Nodau | Dangosyddion perfformiad | Ymrwymiadau / prosiectau |
|---|---|---|
| 3.1 Darparu Cynnig Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar effeithiol | DEFS160 Nifer y plant dwy oed sy'n derbyn gofal plant drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg (EEYYP) | 3.1.1 Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ar leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar a gynhelir, gan sicrhau bod canlyniadau arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn 'dda' o leiaf. (EEYYP)<br>3.1.2 Cynnig cefnogaeth a her effeithiol i leoliadau'r Blynyddoedd Cynnar a ariennir nas cynhelir, gan sicrhau bod canlyniadau cyd-arolygiadau yn 'dda' o leiaf. (EEYYP) |
| 3.2 Darparu ysgolion diogel, cefnogol gydag addysgu o ansawdd uchel | PAM032 Sgôr gyfartalog 'Capio 9' ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11 (EEYYP)<br>EDU016a/PAM007 Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (EEYYP)<br>EDU016b/PAM008 Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (EEYYP)<br>EDU010a Canran y diwrnodiau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau tymor penodol yn ystod y flwyddyn ysgol mewn ysgolion cynradd (EEYYP)<br>EDU010b Canran y diwrnodau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau tymor penodol yn ystod y flwyddyn ysgol mewn ysgolion uwchradd (EEYYP)<br>DEFS155 Canran yr ysgolion sydd wedi'u hunanwerthuso yn 'wyrdd' yn rhan o'u harchwiliad diogelu blynyddol (EEYYP) | 3.2.1 Helpu ysgolion i gyflawni eu cynlluniau gwella drwy ddadansoddi anghenion a chynnig hyfforddiant mewn ymateb i hynny, gan sicrhau y bydd Estyn yn barnu nad oes angen arolwg dilynol ar unrhyw ysgol (EEYYP)<br>3.2.2 Sicrhau bod hyfforddiant dysgu digidol ychwanegol ar gael i'r holl staff ysgol i wella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion (EEYYP)<br>3.2.3 Gwella'r cynnig digidol i bobl ifanc, gan gynnwys gwefan ryngweithiol dan arweiniad pobl ifanc (EEYYP) |
| 3.3 Darparu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg | DEFS138 Canran y disgyblion Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg (EEYYP)<br>DEFS157 Canran y dysgwyr sy'n astudio am gymwysterau asesedig drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 11) (EEYYP)<br>DEFS158 Nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith (EEYYP) | 3.3.1 Cyflawni'r camau gweithredu yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) (EEYYP) |

| | | |
|---|---|---|
| 3.4 Moderneiddio adeiladau ysgol | | 3.4.1 Ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr i adeilad ysgol newydd 2.5 dosbarth mynediad. (EEYYP)<br>3.4.2 Darparu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig. (EEYYP)<br>3.4.3 Ehangu Ysgol y Ferch o'r Sgêr i adeilad ysgol newydd 2 ddosbarth mynediad. (EEYYP)<br>3.4.4 Darparu ysgol cyfrwng Saesneg newydd â dau ddosbarth mynediad i gymryd lle Ysgolion Cynradd presennol Afon Y Felin a Chorneli. (EEYYP)<br>3.4.5 Symud Ysgol Heronsbridge i adeilad ysgol newydd sbon â 300 o leoedd. (EEYYP) |
| 3.5 Bod yn rhieni da i'n plant sydd â phrofiad o ofal | Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 24 mis ers gadael gofal (SSWB)<br>CH/052 Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi profi digartrefedd yn ystod y flwyddyn (SSWB) | 3.5.1 Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau deilliannau gwell i blant sydd wedi profi gofal drwy gyflawni camau yn y cynllun gweithredu rhianta corfforaethol, ac yn seiliedig ar safbwyntiau ein plant a phobl ifanc (SSWB)<br>3.5.2 Cefnogi gweithrediad y Strategaeth Rhianta Corfforaethol mewn ysgolion. (EEYYP) |
| 3.6 Helpu pobl i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith | DEFS82 Nifer y rhai a gymerodd ran yn rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr a aeth ymlaen i gael swydd (COMM)<br>DEFS80 Nifer y rhai a gymerodd ran yn rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr a gefnogwyd i mewn i addysg neu hyfforddiant (COMM)<br>PAM046 Canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) (EEETYP) | 3.6.1 Cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant yn y Fwrdeistref Sirol. (COMM)<br>3.6.2 Bydd Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda chyllidwyr a phartneriaid i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau (COMM) |

## Amcan Llesiant pedwar - Cefnogi'r rhai yn ein plith sydd yn fwyaf agored i niwed

| Nodau | Dangosyddion perfformiad | Ymrwymiadau / prosiectau |
|---|---|---|
| 4.1 Darparu gwasanaethau cymdeithasol / gwasanaethau cymorth cynnar o ansawdd uchel i blant ac oedolion | SSWB78 Amseroldeb ymweliadau â<br>a) phlant sydd â phrofiad o ofal.<br>b) Plant ar y gofrestr amddiffyn plant (SSWB)<br><br>SSWB39 Nifer y plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal (SSWB)<br><br>CH/026 Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant (SSWB)<br><br>SSWB57 Canran yr ymholiadau â drws blaen Gofal Cymdeithasol i Oedolion sy'n arwain at wybodaeth a chyngor yn unig<br><br>Canran y pecynnau ailalluogi a weithredwyd gan arwain at ganlyniad cadarnhaol (SSWB)<br><br>DEFS29 Canran y cynlluniau Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) a gwblhawyd ac a gaewyd gyda chanlyniad llwyddiannus (SSWB)<br><br>SSWB75 Nifer y bobl a brofodd oedi wrth drosglwyddo gofal ar y llwybrau 'rhyddhau i adfer yna asesu' (SSWB) | 4.1.1 Cefnogi llesiant gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc, er mwyn iddynt gael bywyd y tu hwnt i ofalu drwy gyflawni cynllun gweithredu'r gofalwyr. (SSWB)<br><br>4.1.2 Gwella Gwasanaethau Plant drwy gyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun strategol tair blynedd. (SSWB)<br><br>4.1.3 Gwella gofal cymdeithasol i oedolion drwy gyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun strategol tair blynedd (SSWB)<br><br>4.1.4 Newid y ffordd y mae ein gweithwyr cymdeithasol yn gweithio i adeiladu ar gryfderau pobl ac adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, y perthnasoedd sydd ganddynt a'u helpu i gyflawni eu potensial. (SSWB)<br><br>4.1,5 Mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau darparwyr Gofal Cymdeithasol i Oedolion drwy weithredu'r meysydd comisiynu â blaenoriaeth a nodwyd yn ein strategaethau comisiynu ac adolygiadau gwasanaeth manwl (SSWB)<br><br>4.1.6 Mynd i'r afael â'r bylchau yng ngwasanaethau darparwyr Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac ymateb i'r Bil Dileu Elw/Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy weithredu'r meysydd comisiynu â blaenoriaeth a nodwyd yn y strategaeth Comisiynu Lleoliadau (SSWB)<br><br>4.1.7 Sicrhau y gall plant a theuluoedd gael mynediad at gymorth gan y gwasanaeth cywir ar yr amser cywir gyda'r nod o atal eu hanghenion rhag gwaethygu. (SSWB)<br><br>4.1.8 Cyflogi a datblygu gweithlu gofal cymdeithasol cymwys, brwdfrydig a chefnogol o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid. Llenwi swyddi gwag yn ein gwasanaethau gofal cymdeithasol a lleihau dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth. (SSWB) |
| 4.2 Cefnogi pobl mewn tlodi | CED43 Canran y bobl a gefnogir drwy'r Gwasanaeth Cymorth GCChA (Gwasanaeth Cymorth a Chefnogaeth Ariannol) lle arweiniodd y gefnogaeth at gynyddu incwm drwy geisiadau am fudd-daliadau a lwfansau ychwanegol/uwch (CEX) | 4.2.1 Cefnogi preswylwyr cymwys i dderbyn y cymorth ariannol sydd ar gael iddynt. (CEX) |

| | | |
|---|---|---|
| | CED44 Canran y bobl a gefnogir drwy'r GCChA sydd wedi derbyn cyngor a chefnogaeth i reoli neu leihau dyledion eu haelwyd (CEX) | |
| 4.3 Cefnogi pobl sydd ag anghenion tai | PAM/012 Canran yr aelwydydd lle llwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref (CEX)<br><br>DOPS39 Canran y bobl sy’n dod i sylw fel pobl ddigartref neu bobl a allai fod yn ddigartref, y mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd gyfreithiol derfynol i sicrhau llety addas ar eu cyfer (CEX)<br><br>PAM/015 Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) (CEX)<br><br>DOPS41 Canran y bobl sy'n teimlo y gallant fyw'n fwy annibynnol yn sgil derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn eu cartref (CEX)<br><br>CED60 Nifer y cartrefi fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLau) ar draws y Fwrdeistref Sirol (CEX) | 4.3.1 Parhau i wella ein gwasanaeth tai a digartrefedd i leihau digartrefedd ar draws y fwrdeistref drwy weithredu'r cynllun gweithredu cytunedig (CEX)<br><br>4.3.2 Parhau i dargedu'r eiddo gwag hirdymor hynny sydd â'r effaith fwyaf niweidiol ar y gymuned, gan ganolbwyntio ar yr 20 Uchaf. (CEX) |
| 4.4 Cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol | DEFS170 Canran y Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) newydd awdurdodau lleol a ddarperir drwy'r system CDU ar-lein (EEYYP)<br><br>DEFS171 Nifer y disgyblion ar y rhestrau aros ar gyfer darpariaeth arbenigol (EEYYP)<br><br>DEFS172 Canran y disgyblion blwyddyn 9 ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd â chynllun trosglwyddo ar waith, sydd wedi derbyn adolygiad blynyddol erbyn 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ysgol gyfredol. (EEYYP) | 4.4.1 Gweithredu'r system CDU (Cynllun Datblygu Unigol) ar-lein ar gyfer CDUau awdurdodau lleol ac ysgolion. (EEYYP)<br><br>4.4.2 Datblygu cynllun pum mlynedd i ddiwallu'r galw cynyddol am wasanaethau cymorth, darpariaeth arbenigol ac ysgolion (EEYYP) |
| 4.5 Diogelu ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o niwed | SSWB77 Canran yr ymholiadau diogelu oedolion sy'n derbyn ymateb cychwynnol o fewn 7 diwrnod gwaith (SSWB)<br><br>CH/003 Canran yr atgyfeiriadau plant lle gwneir penderfyniad o fewn 24 awr (SSWB)<br><br>SSWB62 Canran yr ymchwiliadau amddiffyn plant a gwblhawyd o fewn y terfynau amser -gofynnol (SSWB)<br><br>SSWB63 Amser aros cyfartalog ar restr aros y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) (SSWB) | 4.5.1 Gweithio fel Un Cyngor i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn effeithiol (SSWB)<br><br>4.5.2 Nodi plant sy'n fwy tebygol o droseddu a rhoi cefnogaeth iddynt i leihau ymddygiad troseddol. (EEYYP) |